cbac wjec

BYDDWCH YN BAROD AR GYFER YR ARHOLIADAU



CANLLAW I FYFYRWYR

ARHOLIADAU HAF 2023



GWNEWCH YN SIŴR EICH BOD YN DEALL Y NEWIDIADAU

Rydym yn cydnabod y bydd myfyrwyr wedi colli cryn dipyn o amser dysgu gwerthfawr. Oherwydd hynny, rydym wedi gwneud cyfres o newidiadau i'r ffordd y bydd TGAU ac UG/Safon Uwch yn cael eu hasesu yn Haf 2023.

I wneud yn siŵr eich bod yn barod, rydyn ni'n argymell eich bod yn dod yn gyfarwydd â'r newidiadau hyn – byddan nhw hefyd yn helpu i ganolbwyntio eich adolygu.

Cofiwch, canllaw yn unig yw hwn ac mae hefyd yn bwysig iawn eich bod yn siarad â'ch ysgol neu'ch coleg hefyd.

PAM MAE ARHOLIADAU'N BWYSIG?

Mae arholiadau yn rhan bwysig o'r broses ddysgu. Maen nhw'n ffordd wych o arddangos eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau.

Ar ben hynny, maen nhw'n rhoi cymwysterau i chi, sy'n gallu agor drysau i amrywiaeth o lwybrau i'ch dyfodol, gan gynnwys addysg uwch a'r farchnad swyddi.

PRYD MAE FY ARHOLIADAU?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod y dyddiadau a'r amseroedd ar gyfer eich arholiadau. Lawrlwythwch yr amserlen ddiweddaraf yma.

SUT MAE ARHOLIADAU'N WAHANOL YN 2023?

Rydym yn cydnabod y bydd myfyrwyr wedi colli allan ar ddysgu gwerthfawr a byddwn yn darparu gwybodaeth ymlaen llaw a fydd yn cefnogi'ch adolygu ar gyfer yr arholiadau TGAU/UG/Safon Uwch yn haf 2023.

Cyhoeddir y wybodaeth ymlaen llaw ar 6 Chwefror 2023 ar gyfer arholiadau haf 2023.



SUT BYDDAF YN CAEL FY NGRADDIO?

Bydd graddau'n cael eu dyfarnu'n fwy hael yn 2023, yn fras hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a 2022 - yn unol â chyhoeddiad Cymwysterau Cymru.

BETH YW GWYBODAETH YMLAEN LLAW?

Mae gwybodaeth ymlaen llaw yn dweud wrthych beth yw ffocws rhai o'r cwestiynau yn yr arholiad; er enghraifft, mae'n bosibl y bydd yn amlinellu rhywfaint o gynnwys, testunau, themâu, a sgiliau fydd yn cael eu hasesu yn arholiadau haf 2023.

Bydd hyn yn amrywio o bwnc i bwnc, ond bwriad hyn yw eich helpu chi â'ch gwaith adolygu.

BETH YW PWRPAS GWYBODAETH YMLAEN LLAW?

Pwrpas gwybodaeth ymlaen llaw yw cefnogi eich gwaith adolygu a'ch helpu chi i baratoi at eich arholiadau.

BLE MAE'R WYBODAETH YMLAEN LLAW I'W GWELD?

Mae'r rhestr lawn o bynciau i'w gweld ar ein tudalen we yma.

Bydd y dudalen we yn rhoi cyswllt i chi i'r wybodaeth ymlaen llaw berthnasol.

PAM FOD GWYBODAETH YMLAEN LLAW RHAI PYNCIAU WEDI'I HANELU AT GWESTIYNAU TARIFF UWCH YN UNIG?

Mae tariff yn cyfeirio at nifer y marciau sydd ar gael am gwestiwn penodol. Mae cwestiynau sy'n gofyn am atebion mwy estynedig, fel traethawd, yn tueddu i fod yn gwestiynau tariff uwch.

Mae gwybodaeth ymlaen llaw yn cael ei darparu i'ch helpu chi i wybod beth i roi blaenoriaeth iddo wrth adolygu, ond mae angen osgoi gallu rhagweld beth sydd mewn arholiadau o hyd, a'r posibilrwydd o allu adnabod cwestiynau ymlaen llaw.

Mae ffocws y wybodaeth ymlaen llaw ar y cwestiynau tariff uwch yn bennaf. Dylai hynny felly roi'r hyder i chi i deimlo eich bod wedi adolygu'r testunau cywir ar gyfer y cwestiynau sy'n werth mwy o farciau. Hefyd, mae'n osgoi adolygu gormod ar feysydd sy'n rhoi dim ond ychydig bach o farciau. Fodd bynnag, dylech chi adolygu holl gynnwys y fanyleb o hyd.



YDW I'N CAEL DOD Â'R WYBODAETH YMLAEN LLAW I'R ARHOLIAD?

Pwrpas y wybodaeth ymlaen llaw yw eich helpu chi i flaenoriaethu eich adolygu. Nid cael ei defnyddio fel cymorth yn yr arholiad yw ei bwriad. Pe byddai'n cael ei defnyddio yn yr arholiad ei hun, gallai roi atebion neu ysgogiadau i chi i gwestiynau. Gallai hyn yn ei dro arwain at ganlyniadau annheg ac amharu ar ddilyniant.

A DDYLWN I GANOLBWYNTIO AR YR HYN SYDD YN Y WYBODAETH YMLAEN LLAW YN UNIG?

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd y wybodaeth ymlaen llaw yn ymdrin â phopeth sydd i'w asesu. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o wybodaeth na'r hyn sydd yn y wybodaeth ymlaen llaw ar gyfer rhai cwestiynau yn yr arholiadau.

Mewn llawer o achosion, bydd y wybodaeth ymlaen llaw yn rhoi testunau o'r cynnwys a fydd yn eich helpu chi i roi eich adolygu yn nhrefn blaenoriaeth - ond cofiwch, gallai cynnwys sydd ddim ar y rhestr gael ei asesu o hyd mewn cwestiynau eraill.

I wneud yn siŵr eich bod yn perfformio orau y gallwch chi yn yr arholiadau, dylech adolygu holl gynnwys y cwrs.

SUT DYLAI GWYBODAETH YMLAEN LLAW LYWIO'R FFORDD YR WYF YN DEFNYDDIO CYN-BAPURAU WRTH ADOLYGU?

Y ffordd orau bob amser i baratoi ar gyfer llwyddiant mewn arholiad yw cael dealltwriaeth dda ac eang o holl gynnwys y fanyleb. Mae'n bwysig i chi gofio y gallai popeth rydych chi'n ei ddysgu mewn testun neu faes allweddol fod yn ddefnyddiol i chi.

Bwriad y wybodaeth ymlaen llaw yw eich helpu i ganolbwyntio a blaenoriaethu eich adolygu. Er enghraifft, os yw'r wybodaeth ymlaen llaw ar gyfer pwnc penodol yn dweud y bydd yr arholiad yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar gynnwys y fanyleb, yna efallai y byddwch chi am roi blaenoriaeth i'r cynnwys hwnnw wrth i chi ddefnyddio cwestiynau o gyn-bapurau i adolygu.

Fodd bynnag, i gefnogi eich dilyniant a'ch perfformiad gorau posibl yn eich arholiadau, gwnewch yn siŵr bod eich cynlluniau adolygu yn ystyried popeth sydd wedi'i addysgu i chi.

Ni fydd gwybodaeth ymlaen llaw o reidrwydd yn ymdrin â phob agwedd ar gynnwys y fanyleb a fydd yn cael ei asesu yn arholiadau 2023, felly i wneud y defnydd gorau o gyn-bapurau bydd angen i chi ymarfer amrywiaeth eang o gwestiynau blaenorol.




PAM NAD OES GWYBODAETH YMLAEN LLAW AR GYFER Y CYMHWYSTER RWY'N EI ASTUDIO?

Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i darparu ar gyfer holl gymwysterau cyffredinol CBAC (er nad o reidrwydd ar gyfer pob uned o fewn pob cymhwyster), sydd wedi'u rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru a phob cymhwyster galwedigaethol penodol i Gymru sydd wedi'u rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru.

Nid oes gwybodaeth ymlaen llaw ar gyfer cymwysterau cyffredinol Eduqas sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofqual ac sydd wedi'u dynodi i'w defnyddio yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw bod y llywodraeth a'r rheoleiddiwr yn Lloegr wedi penderfynu na fydd gwybodaeth o flaen llaw yn 2023.

PA ADNODDAU SYDD AR GAEL?

Mae dewis o adnoddau RHAD AC AM DDIM ar gael i chi eu defnyddio i roi hwb i'ch gwaith adolygu – gan gynnwys Trefnwyr Gwybodaeth, modiwlau Dysgu Cyfunol ac Arweiniad i'r Arholiad o'n gwefan Adnoddau Digidol!



MAE AWGRYMIADAU ADOLYGU, ARWEINIAD AR YR ARHOLIAD A MWY I'W GWELD AR EIN TUDALENNAU GWE CEFNOGAETH I FYFYRWYR AC AR EIN CYFRIF INSTAGRAM I DDYSGWYR!